

CYFARFOD	Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth
DYDDIAD	18.Chwefror 2021
PWNC	Fframwaith gweithredu cyfarfodydd a phwyllgorau i'r dyfodol
PWRPAS	Ymgynghori gydag aelodau'r Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth ar fframwaith ddrafft ar gyfer cynnal cyfarfodydd a phwyllgorau gydag Aelodau i'r dyfodol
AWDUR	Vera Jones, Rheolwr Gwasanaethau Democratiaeth ac Iaith

Cefndir.

1. Adroddwyd yng nghyfarfod 17 Tachwedd 2020 fod gwaith sylweddol wedi ei wneud yn ystod y flwyddyn diwethaf i alluogi cynnal cyfarfodydd rhithiol a bod gwersi o'r cyfnod y dylid eu cynnal a'u cadw i'r tymor hwy. Cafwyd trafodaeth gychwynnol am egwyddorion cynnal cyfarfodydd i'r dyfodol yn ystod y cyfarfod. Ers hynny, rydym hefyd wedi ymgynghori gyda'r Aelodau Cabinet a rhoddwyd cyfle i bob aelod o'r Cyngor gyflwyno sylwadau i'r Cadeirydd.
2. Nodwyd hefyd fod swyddogion y Cyngor eisoes wedi trafod rhai o'r buddion, anfanteision a'r gwersi o gynnal cyfarfodydd rhithiol sydd wedi dod i'r amlwg dros y misoedd diwethaf. Mae swyddogion wedi bwrw ati i ddatblygu fframwaith gweithredu cyfarfodydd mewnol er mwyn sicrhau nad ydym yn colli rhai o'r buddion amlwg ac yn llithro nol i hen drefniadau yn ddifeddwl. Gweler copi o'r fframwaith ar gyfer swyddogion yn **Atodiad A**.

Fframwaith Gweithredu cyfarfodydd.

3. Pwrpas y papur heddiw yw cyflwyno'r gwaith sydd wedi ei gyflawni hyd yma er ymgynghori gyda aelodau'r Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth. Yn amlwg, bydd angen sicrhau fod yr argymhellion yn cyd-fynd gyda gofynion Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 cyn mabwysiadu'r fframwaith yn derfynol a sicrhau newidiadau i gyfansoddiad y Cyngor petai'r angen.
4. Daeth yn amlwg yn fuan fod rhai egwyddorion sylfaenol i'w sefydlu fel sail ar gyfer gwneud penderfyniadau fesul pwyllgor neu gyfarfod. Mae'r tabl isod yn amlinellu'r egwyddorion sydd wedi eu cynnig hyd yma.

Egwyddorion gweithredu

- ✓ Mae angen adeiladu ar lwyddiant y cyfarfodydd rhithiol sydd wedi eu cynnal dros y misoedd diwethaf

- ✓ Dylid ymgeisio at gynnal y rhan fwyaf o gyfarfodydd yn rhithiol er mwyn:
 - Cyfrannu at yr agenda lleihau carbon trwy leihau teithio
 - Hybu amrywiaeth mewn Democratiaeth trwy annog hyblygrwydd mynediad o bell i gyfarfodydd rhithiol gan ddenu mwy o bobl sy'n gweithio a rhieni ifanc
 - Defnyddio amser Cyngorwyr yn fwy synhwyrol trwy leihau'r gofynion teithio
 - Lleihau costau teithio

Be sy'n cael ei gynniq?

5. Fel Cyngorwyr byddwch yn mynychu nifer o gyfarfodydd gwahanol gyda'r Cyngor. Isod, mae ymgais gychwynnol ar gyfer adnabod ffordd o weithredu ar gyfer;
- cyfarfodydd mewnol,
 - cyfarfodydd rhanbarthol a chenedlaethol,
 - hyfforddiant a
 - phwyllgorau ffurfiol.

Maent yn cyd-fynd ac yn gyson (hyd y gellir) gyda'r Fframwaith Weithredu cyfarfodydd sydd wedi ei ddatblygu ar gyfer staff.

6. Cyfarfodydd mewnol/gyda swyddogion – mae Aelodau yn aml yn mynychu cyfarfodydd gyda swyddogion – gall amrywio o gyfarfodydd unigol gyda swyddog(ion) neu gyda chriw mwy. Nodir rhagdybiaeth y cynhelir pob cyfarfod mewnol yn rhithiol gan ddefnyddio Microsoft Teams (neu Zoom lle mae'r angen am gyfieithu ar y pryd). Mae dwy enghraifft ddiweddar o gyfarfodydd ymgynghori yn digwydd yn llwyddiannus yn rhithiol, sef ymgynghori ar y gyllideb ac ymgynghori ar gynllun busnes drafft y Cyngor.
7. Rydym yn cydnabod fod eithriadau i'r trefniant, gyda'r angen am gyfarfodydd wyneb yn wyneb yn achlysurol. Eithriad tebygol yw achlysuron penodol megis ar ddechrau cyfnod Cyngor newydd pan fod nifer o gynghorwyr newydd yn ymuno.
8. Cyfarfodydd rhanbarthol a chenedlaethol - Ein bod yn ymgyrchu i gynnal cyfarfodydd rhanbarthol a chenedlaethol yn rhithiol a'n bod yn ymrwymo i

fynychu'r cyfarfodydd hynny yn rhithiol ple bynnag bo hynny yn ymarferol bosib. O ganlyniad bydd yn gwneud gwell defnydd o amser Cynghorwyr. Ymhellach, ein bod yn defnyddio ein hawl a'n dyletswydd i gyfrannu drwy'r Gymraeg gan atgoffa'r trefnydd o'r angen iddynt sicrhau ddarpariaeth cyfieithu yn y cyfarfodydd hyn er mwyn sicrhau nad oes llithriad i'w cynnal trwy gyfrwng y Saesneg yn unig.

9. Hyfforddiant ar gyfer Aelodau – Nodir rhagdybiaeth o geisio sicrhau cynnal sesiynau hyfforddiant i aelodau yn rhithiol (yn arbennig hyfforddiant sy'n rhannu gwybodaeth). Mae'n debyg y bydd eithriadau i drefniadau o'r fath, ond ceisir lleihau hyfforddiant wyneb i wyneb lle bo modd.
10. Pwyllgorau Ffurfiol – Nodir rhagdybiaeth unwaith eto o geisio sicrhau cynnal pwyllgorau ffurfiol y Cyngor yn rhithiol. Fodd bynnag, mae eithriadau penodol i'r arweiniad fel a ganlyn:
 - **Y Cyngor llawn*** - cyfle i holl aelodau'r Cyngor ddod ynghyd 5 gwaith y flwyddyn. Yr unig gyfarfod gyda'r 75 cynghorydd, ac mae cynnal cyfarfod rhithiol gyda chynifer yn bresennol yn rhithiol yn her sylweddol i'r Cadeirydd. Fodd bynnag, rhaid cofio fod cyfarfodydd rhithiol y Cyngor llawn wedi eu cynnal yn llwyddiannus hyd yma.
 - **Pwyllgor Apelau Cyflogaeth** – dylid cynnal y pwyllgor yn rhithiol neu o fewn y siambr, yn ddibynnol ar ddymuniad yr apelydd.
 - **Is-bwyllgor Trwyddedu** – dylid cynnal y pwyllgor yn rhithiol neu o fewn y siambr, yn ddibynnol ar ddymuniad yr ymgeisydd.
 - **Pwyllgor Penodi Prif Swyddogion** – dibynnol ar y rôl sydd i'w gyflawni gan y Pwyllgor. Argymhellir fod angen ystyried cyfweld mewn siambr, ond fod modd cynnal y cyfarfod fel arall yn rhithiol.
11. Cyfarfodydd hanner hanner (hybrid). Mae Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn nodi'r angen am alluogi mynediad o bell i bwyllgorau. Mae nifer o Gynghorwyr a swyddogion eisoes wedi nodi fod profiad o bawb yn cymryd rhan yn rhithiol neu pawb yn cymryd rhan mewn ystafell gyfarfod yn brofiad pur wahanol i gyfarfod hanner hanner gyda rhai mewn ystafell gyfarfod ac eraill yn ymuno o bell. Teg yw nodi fod sgiliau cadeirio a thechnoleg yn chwarae rhan allweddol mewn cyfarfodydd o'r fath.
12. Bydd yn angenrheidiol sicrhau hyfforddiant ar gyfer unrhyw Aelod sy'n cadeirio cyfarfodydd – gyda sgiliau gwahanol yn cael eu hadnabod ar gyfer cadeirio cyfarfod rhithiol llwyr a chadeirio cyfarfod hanner/hanner.
13. Gweler dabl o brif gyfarfodydd y Cyngor yn **Atodiad 2** – mae'n gymorth i Aelodau weld a deall yr hyn sy'n cael ei gyflwyno uchod. Noder y byddai

unrhyw is-bwyllgor yn cael ei gynnal yn rhithiol ag eithrio yr is-bwyllgor trwyddedu.

14. Gofynnir i aelodau'r Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth gyflwyno

- Sylwadau ar yr egwyddorion gweithredu
- Sylwadau ar yr ymgais gychwynnol ar gyfer gweithredu mewn
 - Cyfarfodydd mewnol
 - Cyfarfodydd rhanbarthol a chenedlaethol
 - Hyfforddiant
 - Pwyllgorau ffurfiol

ATODIAD 1

FFRAMWAITH WEITHREDU - CYFARFODYDD MEWNOL

1. Bod rhagdybiaeth y cynhelir pob cyfarfod mewnol yn rhithiol (i gynnwys cydswyddogion ac Aelodau unigol) gan ddefnyddio Microsoft Teams.
2. Ein bod yn cydnabod y budd o gynnal cyfarfodydd tim wyneb i wyneb yn achlysurol yn ystod y flwyddyn fel modd o gynnal y cyswllt cymdeithasol a chyflwyno wynebau newydd pan fo hynny'n berthnasol yn ogystal a phan fo angen sefydlu cynnyrch mewn gweithgor a.y.b.
3. Yn arferol, ein bod yn atal rhag cynnal cyfarfodydd ple bo rhai swyddogion wyneb i wyneb yn yr un ystafell ac eraill yn cysylltu'n rhithiol. Fodd bynnag, ac mewn sefyllfaoedd eithriadol yn unig, gellir caniatáu i unigolyn gysylltu yn rhithiol pan drefnir cyfarfod wyneb i wyneb ar gyfer gweddill y mynychwyr. Pwysleisir mai dim ond mewn sefyllfa ple mai dyma'r unig fodd o sicrhau presenoldeb yr unigolyn y dylid caniatáu hyn, gan fod yn fyw i'r ffaith bod cysylltu'n rhithiol, tra bod eraill yn yr ystafell, yn gallu arwain at brofiad eilradd i rai sy'n gwneud hynny a'r perygl sy'n codi o danseilio cyfarfod yn rhithiol yn ei sgîl.
4. Ein bod yn ymgyrchu i gynnal cyfarfodydd rhanbarthol a chenedlaethol yn rhithiol a'n bod yn ymrwymo i fynychu'r cyfarfodydd hynny ple bynnag bo hynny yn ymarferol bosib ac o ganlyniad gwneud gwell defnydd o amser. Ymhellach, ein bod yn pwysleisio'r angen am ddarpariaeth cyfieithu yn y cyfarfodydd hyn er mwyn sicrhau nad oes llithriad i'w cynnal trwy gyfrwng y Saesneg yn unig.
5. Ein bod yn derbyn yr angen i gynnal cyfarfodydd wyneb i wyneb mewn sefyllfa o sgwrs anodd, ymchwiliadau cyflogaeth, trafodaethau gormodedd, trafodaethau gweithiwr cymdeithasol hefo cleient ar rai adegau. Ple bo'n rhaid cyfarfod wyneb i wyneb yn ystod cyfyngiadau'r cyfnod clo, bydd angen cydnabod mai nifer bychan o bobl all fod mewn unrhyw ystafell gyfarfod ar yr un pryd a bydd angen cynllunio trefniadau ymlaen llaw.
6. Ein bod yn ymrwymo i hyfforddiant perthnasol a chyfarwyddyd safonol ar gyfer cadeirio cyfarfodydd rhithiol.
7. Ein bod yn datblygu sgilau defnyddio technoleg (ac ymddygiad priodol mewn cyfarfodydd rhithiol) fel modd o ymestyn trefniadau cyfathrebu presennol

ATODIAD 2

	Rhaid bod yn y Siambr	Rhithiol yn unig	Hybrid neu ?	PAM?
CYNGOR	x		x	Cyfle rhyng-weithiol i'r holl Aelodau..Her i Gadeirydd gadeirio.
Cabinet		x		
Pwyllgor Craffu – Addysg ac Economi		x		
Pwyllgor Craffu - Cymunedau		x		
Pwyllgor Craffu - Gofal		x		
Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu		x		
Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd		x		
Pwyllgor Cynllunio		x		
Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd		x		
Pwyllgor Trwyddedu Canolog/Cyffredinol		x		
Is-bwyllgorau trwyddedu	x	x	x	Ar sail cais yr unigolyn
Pwyllgor Safonau		x		
CYSAG		x		
Pwyllgor Iaith		x		
Cyd-Bwyllgor Ymgynghorol Lleol		x		
Pwyllgor Apelau Cyflogaeth	x	x	x	Ar sail cais yr unigolyn
Pwyllgor Pensiynau		X		
Pwyllgor Penodi prif swyddogion				Dibynnod ar y testun. Cyfweiliad i benodi – angen gweld y person
Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Porthmadog		X		
Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Pwllheli		X		
Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Aberdyfi		X		
Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Abermaw		X		